OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 684 (Cy.92)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol)(Diwygio)(Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*4 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 128, 129, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

Diwygio rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol

2. Diwygir Rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio) fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£52.90" rhodder "£54.20"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£13.70" rhodder "£14.00".

Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

3.—(1) Diwygir Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau a wynebwerthoedd talebau — cyflenwi ac ailosod), yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

(1) *Swm blaenorol*	*(2)* *Swm newydd*
£36.20	£37.10
£55.10	£56.40
£80.60	£82.60
£182.00	£186.50
£62.70	£64.20
£79.70	£81.60
£103.30	£105.80
£200.10	£205.10
£186.40	£191.00
£52.90	£54.20

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£11.80" rhodder "£12.10;

(b) ym mharagraff (1)(1)(b), yn lle "£14.20" rhodder "£14.60 ";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£4.00" rhodder "£4.10 ";

(d) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.50" rhodder "£4.60 ";

(e) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£59.70", "£52.90" a "£28.60" rhodder "£61.20", "£54.20" a "£29.30" yn eu trefn;

(f) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£59.70" rhodder "£61.20 ";

(g) ym mharagraff 2(a), yn lle "£13.70" rhodder "£14.00 "; a

(h) ym mharagraff 2(b), yn lle "£34.60" rhodder "£35.50 ".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Darpariaeth Drosiannol

4. Nid yw'r symiau newydd a amnewidir gan reoliadau 2 a 3 yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012.

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2012